**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi a Diwygio'r Dreth Gyngor ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**10 Rhagfyr 2024**

**RHAN 1**

**1 Disgrifiad**

1.1 Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yw'r mecanwaith y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn ei ddefnyddio i ddarparu cymorth i aelwydydd incwm isel wrth iddynt fodloni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor.

1.2 Mae'r offeryn statudol hwn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd yn y Memorandwm Esboniadol hwn fel "Rheoliadau 2013"). Mae'n uwchraddio ffigurau penodol a ddefnyddir i gyfrifo hawlogaeth ceisydd i ostyngiad o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a'r lefel ddilynol o ostyngiad, ac yn gwneud diwygiadau technegol a chanlyniadol penodol i sicrhau bod Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn adlewyrchu newidiadau i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol cysylltiedig a systemau eraill a'u bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

**2 Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Dim.

**3 Y cefndir deddfwriaethol**

3.1 Mewnosododd adran 10 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 ac Atodlen 4 iddi adran 13A newydd ac Atodlen newydd 1B yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992"). Roedd y darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru drwy reoliadau.

3.2 Mae'r offeryn statudol hwn wedi'i wneud yn unol â phwerau yn adran 13A o Ddeddf 1992 ac Atodlen 1B iddi. Mae'r offeryn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Senedd (y weithdrefn gadarnhaol ddrafft) yn rhinwedd adran 13A(4) ac (8) o Ddeddf 1992.

**4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Er mwyn adlewyrchu cynnydd mewn costau byw, mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau 2013 i uwchraddio ffigurau penodol yn y Rheoliadau hynny a ddefnyddir i gyfrifo hawlogaeth i ostyngiad yn y dreth gyngor, a swm unrhyw ostyngiad a roddir i geiswyr yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26. Mae hefyd yn gwneud mân newidiadau technegol, cyflwyniadol a chanlyniadol i Reoliadau 2013.

<u>Y cefndir</u>

4.2 Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor o 31 Mawrth 2013 ymlaen. O 1 Ebrill 2013 ymlaen, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ddarparu cymorth o ran y dreth gyngor i awdurdodau lleol yn Lloegr. Trosglwyddwyd cyllid sefydlog, a oedd wedi'i leihau 10% o gymharu â chostau 2012-13, i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban er mwyn i'r Llywodraethau Datganoledig ddatblygu cynlluniau newydd.

4.3 Wedi penderfyniad Llywodraeth y DU, ceisiodd Llywodraeth Cymru ddarpariaethau yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012, a ddiwygiodd Ddeddf 1992, i roi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru i gyflwyno Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru drwy reoliadau.

4.4 Cymeradwywyd Rheoliadau 2013 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Tachwedd 2013.

4.5 Mae gwerth yr hawlogaethau a ddyfernir yn cael ei dalu'n lleol gan bob awdurdod lleol. Darparodd Llywodraeth Cymru £244m yn y Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2013-14 a phob blwyddyn ers hynny.

<u>Rheoliadau 2013</u>

4.6 Yn cyd-fynd â'r darpariaethau blaenorol a oedd mewn grym yn Neddf 1992, mae Rheoliadau 2013 yn llywodraethu'r modd y caiff Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor eu gweithredu yng Nghymru. Mae'r rheoliadau hyn wedi'u seilio'n agos ar reolau blaenorol Budd-dal y Dreth Gyngor er mwyn atal aelwydydd incwm isel rhag wynebu newidiadau sydyn yn lefel y cymorth roeddent yn ei gael. O 1 Ebrill 2013 ymlaen, cafodd pob ceisydd cymwys ei drosglwyddo'n awtomatig o Fudd-dal y Dreth Gyngor i Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Os yw ceisydd yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Pensiwn, neu Warant Credyd Pensiwn, mae ganddo hawl i'r gostyngiad mwyaf a'r gostyngiad llawn o ran ei atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Mae tua 42% o geiswyr Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru yn cael y budd-daliadau pasbortio hyn.

4.7 Os nad yw ceisydd yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau pasbortio, cyfrifir y swm wythnosol o arian y bernir ei fod ei angen i fyw. Gelwir y swm hwn yn 'swm cymwysadwy' ac mae'n cynnwys dwy ran.

- Y rhan gyntaf yw'r lwfans personol sef y swm sylfaenol sydd ei angen ar berson i fyw, sy'n amrywio yn ôl amgylchiadau'r aelwyd. Er enghraifft, mae'r lwfans ar gyfer cwpl sydd â phlant yn uwch na'r lwfans ar gyfer person sengl heb blant. Mae'r lwfansau hyn hefyd yn cael eu pennu ar gyfraddau uwch ar gyfer y rhai sydd wedi cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

- Yr ail ran yw'r premiwm sef symiau ychwanegol sy'n cael eu hychwanegu i adlewyrchu unrhyw amgylchiadau personol sy'n cynyddu

costau byw, er enghraifft anabledd neu gyfrifoldebau gofalu. Unwaith y mae'r swm cymwysadwy wedi'i benderfynu, caiff lefel incwm y ceisydd ei gyfrifo.

4.8 Ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, caiff y rhai sy'n cael Credyd Cynhwysol eu trin mewn ffordd debyg i geiswyr nad ydynt wedi'u pasbortio. Fodd bynnag, yn hytrach na chyfrifo 'swm cymwysadwy', defnyddir yr 'uchafswm' (a gyfrifir yn eu cais am Gredyd Cynhwysol).

4.9 Os yw'r swm cymwysadwy neu'r uchafswm yn uwch nag incwm y ceisydd a gyfrifir, mae ganddo hawl i'r gostyngiad mwyaf o ran ei atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Os yw'r incwm yn uwch na'r swm cymwysadwy, mae'r hawlogaeth wythnosol yn cael ei gostwng 20c am bob £1 o incwm wythnosol dros ben, hyd nes y tynnir yr hawlogaeth yn ôl. Y tapr yw'r enw ar hyn.

4.10 Gellir gwneud addasiadau i uchafswm y gostyngiad y gall person ei gael er mwyn ystyried oedolion sy'n byw yn yr annedd nad ydynt yn ddibynyddion y ceisydd ac y tybir felly eu bod yn gwneud cyfraniad ariannol at yr aelwyd (didyniadau annibynyddion).

4.11 Yn ogystal, gellir gwneud addasiadau er mwyn ystyried cynilion. Os oes gan geisydd gyfalaf o £6,000 (neu £10,000 ar gyfer ceiswyr o oedran pensiwn) neu lai, caiff hyn ei anwybyddu wrth gyfrifo a oes ganddo hawl i ostyngiad.

4.12 Os oes gan geisydd o oedran gweithio gyfalaf rhwng £6,000 ac £16,000, bydd yr awdurdod lleol yn ei ystyried yn incwm. Gelwir hyn yn incwm tariff. Bydd yr awdurdod lleol yn tybio bod gan geisydd incwm o £1 yr wythnos am bob £250 o gyfalaf rhwng £6,000 ac £16,000. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu at incwm arall i gyfrifo a oes gan geisydd hawl i ostyngiad ac, os felly, swm y gostyngiad hwnnw.

4.13 Os oes gan geisydd o oedran pensiwn gyfalaf rhwng £10,000 ac £16,000, bydd yr awdurdod lleol yn ei ystyried yn incwm. Bydd yr awdurdod lleol yn tybio bod gan geisydd incwm o £1 yr wythnos am bob £500 o gyfalaf rhwng £10,000 ac £16,000. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu at incwm arall i gyfrifo a oes gan geisydd hawl i ostyngiad ac, os felly, swm y gostyngiad hwnnw.

<u>Ffigurau uwchraddio ar gyfer 2025-26</u>

4.14 Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau 2013 er mwyn uwchraddio ffigurau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo hawlogaeth i ostyngiad yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

4.15 Mae'r offeryn statudol yn ceisio uwchraddio nifer o ffigurau eraill sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau 2013. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- <u>Lwfansau personol mewn perthynas â phobl o oedran gweithio, a phremiymau gofalwyr a phobl anabl:</u> mae'r ffigurau ariannol mewn cysylltiad â'r lwfansau hyn wedi'u diwygio ac wedi cynyddu yn unol â'r cynnydd mewn costau byw. Y confensiwn yw uwchraddio yn unol â ffigur y

Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mis Medi y flwyddyn flaenorol (2024), sef 1.7%.

- Lwfansau personol mewn perthynas â phensiynwyr: mae'r ffigurau ariannol mewn cysylltiad â chyfraddau pensiynwyr wedi'u diwygio ac maent yn gyson â Budd-dal Tai. Mae'r rhain wedi'u cyfrifo gyda chymorth yr Adran Gwaith a Phensiynau ac maent wedi'u huwchraddio drwy ddulliau gwahanol. Er enghraifft, mae'r Warant Isafswm Safonol Credyd Pensiwn yn cael ei huwchraddio yn ôl enillion, tra mae'r Pensiwn Ychwanegol a'r cynyddrannau yn cael eu huwchraddio yn ôl prisiau.

- Didyniadau annibynyddion: mae'r ffigurau ariannol ar gyfer y bandiau incwm a'r didyniadau a wneir mewn perthynas ag annibynyddion wedi'u huwchraddio yn ôl y cynnydd cyfartalog yn y dreth gyngor. Os na wneir diwygiadau, ni fyddai'r didyniadau o ddyfarniadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn briodol gan na fyddai'r trothwyon incwm yn adlewyrchu enillion cyfartalog ac na fyddai'r didyniad yn adlewyrchu cyfanswm cost y dreth gyngor.

Diwygiadau Ychwanegol

4.16 Yn ogystal ag uwchraddio'r ffigurau ariannol, mae'r offeryn statudol hwn yn gwneud nifer o ddiwygiadau eraill i Reoliadau 2013. Mae'r diwygiadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer newidiadau technegol, cyflwyniadol a chanlyniadol i sicrhau bod Rheoliadau 2013 yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

***Defnyddio data Credyd Cynhwysol fel bwriad i hawlio***

4.17 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng 12 Mawrth a 6 Mehefin 2024 ar newidiadau arfaethedig i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gyda golwg ar ei wneud yn haws ei ddefnyddio ac yn symlach i'w weinyddu. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r cynnig y caiff awdurdod lleol gydnabod person sy'n cael Credyd Cynhwysol fel un sydd wedi gwneud cais am ostyngiad yn y dreth gyngor. Bydd y diwygiadau arfaethedig yn sicrhau, pan fo person yn cael Credyd Cynhwysol, a phan fo gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r hawlogaeth honno wedi'i rhannu ag awdurdod lleol, y caiff yr awdurdod hwnnw drin hynny fel bwriad i wneud cais i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a phrosesu'r cais hwnnw yn unol â Rheoliadau 2013.

4.18 Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi gosod rheoliadau i sicrhau bod pobl sydd wedi'u dadleoli sy'n cyrraedd y DU yn sgil gwrthdaro yn Sudan yn gallu bodloni'r amodau preswylio ar gyfer budd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm, budd-daliadau anabledd a budd-daliadau gofalwyr.

4.19 Bydd y diwygiadau arfaethedig yn caniatáu i bobl sydd wedi'u dadleoli o Sudan gael mynediad at Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru.

4.20 Mae'r diwygiad canlyniadol yn cael ei wneud i sicrhau nad yw'r grŵp hwn o bobl wedi'u heithrio o'r rhai sy'n cael eu cyfrif fel personau nad ydynt ym Mhrydain Fawr. Mae'r un newidiadau wedi'u gwneud i'r cynllun yn Lloegr.

***Pobl sydd wedi'u dadleoli o Israel, Palesteina neu Libanus***

4.21 Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi gosod rheoliadau i sicrhau bod pobl sydd wedi'u dadleoli sy'n cyrraedd y DU yn sgil gwrthdaro yn Israel, Tiriogaethau Meddianedig Palesteina neu Libanus yn gallu bodloni'r amodau preswylio ar gyfer budd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm, budd-daliadau anabledd a budd-daliadau gofalwyr.

4.22 Bydd y diwygiadau arfaethedig yn caniatáu i bobl sydd wedi'u dadleoli o Israel, Palesteina a Libanus gael mynediad at Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru.

4.23 Mae'r diwygiad canlyniadol yn cael ei wneud i sicrhau nad yw'r grŵp hwn o bobl wedi'u heithrio o'r rhai sy'n cael eu cyfrif fel personau nad ydynt ym Mhrydain Fawr. Mae'r un newidiadau wedi'u gwneud i'r cynllun yn Lloegr.

***Taliadau Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor***

4.24 Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi gosod rheoliadau i sicrhau bod y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor yn cael ei ychwanegu at y rhestr o gynlluniau digolledu, y mae taliadau ar eu cyfer yn cael eu diystyru fel cyfalaf wrth gyfrifo hawlogaethau budd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm. Bydd hyn yn sicrhau bod taliadau digolledu, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu talu i aelodau o deuluoedd dioddefwyr ymosodiadau terfysgol yn Israel, yn cael eu diystyru am gyfnod amhenodol fel cyfalaf wrth gyfrifo hawlogaethau budd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm.

4.25 Bydd y diwygiadau arfaethedig yn sicrhau na fydd derbyn taliad a wneir o dan y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor yn effeithio'n negyddol ar unrhyw geisydd i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n byw yng Nghymru.

***Dileu gofyniad i dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2***

4.26 Ers 6 Ebrill 2024, nid yw pobl hunangyflogedig sydd ag elw uwchlaw £12,570 (y trothwy elw isel) bellach ag atebolrwydd i dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 ac yn hytrach maent yn cael eu trin fel pe baent wedi talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi gosod rheoliadau i wneud newidiadau amrywiol i ddeddfwriaeth i ddileu cyfeiriadau at Gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2, gan gynnwys at Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn Lloegr, i ddileu cyfeiriadau at y trothwy elw isel.

4.27 Bydd y diwygiadau arfaethedig yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed yn Lloegr i hepgor cyfeiriadau at y trothwy elw isel ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

4.28 Bydd y newidiadau a awgrymir yn sicrhau cysondeb yng Nghymru â'r addasiadau a wnaed ac a roddwyd ar waith yn Lloegr.

***Y Consesiwn Dioddefwyr Mudol Cam-drin Domestig***

4.29 Ers 16 Chwefror 2024, mae enw'r Consesiwn Amddifadedd Trais Domestig wedi'i newid gan y Swyddfa Gartref i'r Consesiwn Dioddefwyr Mudol Cam-drin Domestig. Mae'r consesiwn hwn yn caniatáu i unigolion a gafodd ganiatâd blaenorol i aros yn y DU fel priod neu bartner dinesydd Prydeinig neu rywun sydd â statws preswylydd sefydlog yn y DU, ac y mae eu perthynas wedi chwalu oherwydd cam-drin domestig, wneud cais am dri mis o 'Ganiatâd i Aros y Tu Allan i'r Rheolau', sy'n caniatáu hawl i gyllid cyhoeddus. Bydd angen diwygiadau i Reoliadau 2013 i newid cyfeiriadau at Gonsesiwn Amddifadedd Trais Domestig i Gonsesiwn Dioddefwyr Mudol Cam-drin Domestig.

4.30 Bydd y diwygiadau arfaethedig yn sicrhau eu bod yn gyson ag enw diwygiedig y Consesiwn Dioddefwyr Mudol Cam-drin Domestig.

***Mân ddiwygiadau technegol a diwygiadau canlyniadol***

4.31 Gwnaed mân ddiwygiad technegol pellach i ddiweddaru cyfeiriad blaenorol mewn perthynas â thâl profedigaeth rhiant statudol.

**RHAN 2: ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

**Yr opsiynau**

- **Opsiwn 1 – Gwneud dim:** Byddai’r opsiwn hwn yn golygu na fyddai’r ffigurau ariannol a ddefnyddir i asesu lwfansau aelwydydd yn y prawf modd ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor yn newid. Byddai’r meini prawf ychydig yn llai hael i geiswyr nad ydynt wedi’u pasbortio ac yn arwain at leihad bach mewn cymorth mewn termau real.

- **Opsiwn 2 – Gwneud diwygiadau i Reoliadau 2013:** Byddai’r opsiwn hwn yn golygu y byddai diwygiadau yn cael eu gwneud i uwchraddio’r ffigurau ariannol yn Rheoliadau 2013 yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, y cynnydd mewn costau byw a’r newidiadau i fudd-daliadau cymwys.

**Costau a Manteision**

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

Byddai’r ffigurau ariannol a ddefnyddir i asesu cymhwystra aelwydydd ag annibynyddion wedi dyddio. O ganlyniad, ni fyddai’r trothwyon incwm yn adlewyrchu enillion cyfartalog, ac ni fyddai’r addasiad a wneir i’r gostyngiad yn y dreth gyngor yn adlewyrchu cyfanswm cost y dreth gyngor.

Os na wneir diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 2013, byddai hyn yn golygu na fyddent yn ystyried newidiadau i fudd-daliadau lles cysylltiedig na darnau eraill o ddeddfwriaeth. Gallai hyn roi rhai ceiswyr o dan anfantais drwy ostwng eu hawlogaeth i gymorth, neu ddod â hi i ben. Gallai hefyd achosi dryswch i geiswyr a chynyddu’r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol a darparwyr cyngor.

Os na wneir y diwygiadau i ddiystyru’r ystod o gynlluniau digolledu a nodir, gellid effeithio’n negyddol ar geisydd yng Nghymru yn sgil gostwng ei hawlogaeth i gymorth, neu ei cholli.

**Costau**

Os na fydd y ffigurau ariannol ar gyfer lwfansau pobl o oedran gweithio a phensiynwyr yn codi yn unol â chostau byw (fel y’u mesurir gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr), byddai’r rhai sy’n cael cymorth gan Gynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor yn cael ychydig yn llai mewn termau real.

Byddai’r ffigurau ariannol a ddefnyddir i asesu cymhwystra aelwydydd ag annibynyddion hefyd wedi dyddio. Ni fyddai’r broses gyfrifo yn sicrhau asesiad teg o incwm annibynyddion na chyfanswm cost y dreth gyngor. Mae perygl y byddai’r elfen hon o’r cynllun yn cael ei hystyried yn annheg neu’n anghyfartal.

Os na fydd y diwygiadau technegol na’r diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 2013 yn cael eu gwneud, ni fyddent yn gyson â darpariaethau Budd-dal Tai na budd-daliadau cysylltiedig eraill. Byddai hyn yn arwain at gyfeiriadau a fyddai’n anghyson â’r system fudd-daliadau gyfan a gellid rhoi rhai ceiswyr o dan anfantais drwy leihau

eu hawlogaeth i gymorth. Gallai hyn, o bosibl, arwain at faich gweinyddol ychwanegol ar awdurdodau lleol a darparwyr cyngor. Gallai hyn hefyd arwain at ddryswch i rai ceiswyr a allai, o ganlyniad, gael eu trin yn sylweddol wahanol o dan gynlluniau budd-daliadau.

**Manteision**

Byddai peidio ag uwchraddio ffigurau lwfansau pensiynwyr a phobl o oedran gweithio yn helpu i gyfyngu ar unrhyw gynnydd yng nghyfanswm gwerth y gostyngiadau o dan Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae hyn yn golygu y gallai awdurdodau lleol leihau pwysau ar lefelau'r dreth gyngor ychydig. Fodd bynnag, byddai peidio ag uwchraddio ffigurau mewn perthynas â didyniadau annibynyddion yn arwain at ostyngiadau uwch yn y dreth gyngor i aelwydydd perthnasol, nag y byddent fel arall.

**Opsiwn 2 – Gwneud diwygiadau i Reoliadau 2013**

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai diwygiadau yn cael eu gwneud i uwchraddio'r ffigurau ariannol yn Rheoliadau 2013 yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, y cynnydd mewn costau byw a'r newidiadau i fudd-daliadau cymwys.

Bydd y ffigurau ariannol mewn perthynas â chyfraddau pobl o oedran gweithio, pobl anabl neu ofalwyr yn parhau i gynyddu yn unol â chwyddiant, sef **1.7%**, fel y'i mesurir gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Bydd y lwfansau personol ar gyfer pob pensiynwr yn cael eu huwchraddio i adlewyrchu'r lwfans personol uwch a ddarperir gan y system Budd-dal Tai. Byddai'r cynnydd yn cyd-fynd â Gwarant Isafswm Safonol Llywodraeth y DU (o ran Credyd Pensiwn) ynghyd ag uchafswm y Credyd Cynilion (o ran Credyd Pensiwn).

Byddai'r ffigurau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo'r addasiad ar gyfer didyniadau annibynyddion yn cael eu huwchraddio. Byddai'r trothwyon incwm mewn perthynas ag annibynyddion yn cael eu huwchraddio i adlewyrchu enillion cyfartalog a byddai didyniadau annibynyddion Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn adlewyrchu'r cynnydd cyfartalog yn y dreth gyngor.

Byddai'r diwygiadau technegol a chanlyniadol angenrheidiol hefyd yn cael eu gwneud.

Byddai'r diwygiadau yn diystyru'r ystod o gynlluniau digolledu wrth gyfrifo hawlogaeth ceisydd ac yn sicrhau y byddai unrhyw gymorth y mae ganddo hawl iddo yn parhau.

**Costau**

Byddai uwchraddio'r ffigurau ariannol mewn cysylltiad â lwfansau pensiynwyr a phobl o oedran gweithio yn cynyddu ychydig gyfanswm gwerth y gostyngiadau o dan Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Fodd bynnag, pe bai'r ffigurau ariannol mewn perthynas â didyniadau annibynyddion hefyd yn cael eu huwchraddio, byddai peth o'r cynnydd yng nghyfanswm y gostyngiadau yn cael ei liniaru. O ganlyniad, ni ddisgwylir i gyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor

gynyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r uwchraddio. Dim ond ar ôl i awdurdodau lleol gwblhau eu lefelau treth gyngor a'u cyllidebau yn chwarter cyntaf 2025 y bydd modd meintioli'r effaith.

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn sgil dileu cyfeiriadau at Gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 a ddaeth i ben o fis Ebrill 2024 ymlaen.

Byddai cyflwyno darpariaethau i egluro y byddai modd trin pobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn awtomatig fel pe baent wedi gwneud cais i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn niwtral o ran costau i Lywodraeth Cymru ond gallai arwain at gynnydd bach yn y galw ar Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol, ac arwain at gyfanswm uwch o ddyfarniadau. Fodd bynnag, mae'r unigolion hynny yn gymwys ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a gall y newid hefyd arwain at arbedion i gynghorau drwy gael gwared â chostau gweithgareddau gorfodi lle nad oes gobaith realistig o adennill dyledion, a thrwy leihau'r angen am gyswllt hirfaith â threthdalwyr i ganfod a ydynt yn gymwys ac i lenwi ffurflenni.

Ni wyddys nifer y bobl yng Nghymru sy'n derbyn taliadau o dan gynlluniau pobl sydd wedi'u dadleoli o Sudan a phobl sydd wedi'u dadleoli o Israel, Palesteina neu Libanus, taliadau Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor a'r Consesiwn Dioddefwyr Mudol Cam-drin Domestig, ond disgwylir iddo fod yn fach, heb fawr o effaith ar Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Fodd bynnag, ni fydd nifer y bobl sy'n gymwys i gael cymorth gan Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn newid, yn hytrach, mae'r diystyriadau yn diogelu'r bobl hynny sydd eisoes â hawl i ostyngiad neu sydd eisoes yn ei gael.

Awdurdodau lleol sy'n rheoli cynnydd blynyddol yng ngwerth gostyngiadau sy'n codi fel mater o drefn yn sgil uwchraddio, ac yn sgil penderfyniadau lleol i godi'r dreth gyngor.

**Manteision**

Bydd uwchraddio'r ffigurau ariannol yn Rheoliadau 2013 yn sicrhau bod y lwfans personol ar gyfer ceiswyr o oedran gweithio yn parhau i gynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (1.7%).

Bydd uwchraddio'r ffigurau ariannol mewn cysylltiad â'r lwfans personol ar gyfer pensiynwyr yn golygu bod y lwfans yn parhau i gynyddu yn unol â'r Warant Isafswm Safonol yn ogystal â'r Credyd Cynilion. Bydd cynnal y lwfans personol uwch ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn helpu aelwydydd incwm isel sy'n cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth i fodloni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Fel arall, mae'n bosibl y gallant gael llai o Fudd-dal Tai o gymharu â phensiynwr sydd eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn.

Os caiff y ffigurau ariannol o ran cyfraddau didyniadau annibynyddion eu huwchraddio, bydd hyn yn sicrhau bod y broses gyfrifo a ddefnyddir i asesu cymhwystra aelwydydd annibynyddion yn parhau i fod yn gyfredol. Byddai'r broses gyfrifo yn parhau i sicrhau asesiad teg o incwm annibynyddion a chost y dreth gyngor. Bydd hyn yn sicrhau bod y system yn parhau i fod yn deg ac yn gyfartal.

Yn rhan o'r Rheoliadau hyn, gwneir diwygiadau canlyniadol a thechnegol sy'n gysylltiedig â newidiadau ehangach i'r system les a wneir gan Lywodraeth y DU. Byddai hyn yn sicrhau bod Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn adlewyrchu newidiadau a wneir i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol rhyngberthynol sy'n aml yn penderfynu hawlogaeth i ostyngiad. Byddai hyn hefyd yn osgoi baich gweinyddol ychwanegol ar awdurdodau lleol neu ddarparwyr cyngor yn deillio o ymwneud â gwahanol systemau.

**Dewis Opsiwn**

Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefrir. Mae hyn yn cydbwyso fforddiadwyedd o ran adnoddau â pholisi Llywodraeth Cymru i barhau i roi cymorth i aelwydydd incwm isel i fodloni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, gan sicrhau asesiad teg a chynnig darpariaeth benodol ar gyfer grwpiau agored i niwed, ac i leihau, pan fo hynny'n bosibl, y baich gweinyddol at ddibenion effeithlonrwydd treth.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid a sectorau**

Wrth ddatblygu cynigion i gyflwyno Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru, ymgynghorwyd â llywodraeth leol a sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol. Mae awdurdodau lleol wedi cael gwybod am y diwygiadau arfaethedig ar gyfer 2025-26. Ni fydd y ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar y sector busnes.

**Dyletswyddau**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:** Drwy hyrwyddo sefydlogrwydd economaidd, lleihau anghydraddoldeb, a gwella canlyniadau iechyd, mae uwchraddio Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn flynyddol yn cefnogi tri phrif nod: Cymru Lewyrchus, Cymru Fwy Cyfartal, a Chymru Iachach. Mae hyn yn sicrhau cymorth ariannol i aelwydydd incwm isel, gan gyfrannu at gymdeithas fwy cyfartal a llewyrchus, ac yn cyfrannu at Gymru fwy llewyrchus, cyfartal, iach a chynaliadwy.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**: Drwy barhau i ddiogelu aelwydydd incwm isel, gan gynnwys y rhai â phlant, rhag eu hatebolrwydd llawn i dalu'r dreth gyngor, mae Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael effaith gadarnhaol ar safonau byw plant yng Nghymru, ac yn helpu i gyflawni dyletswydd Llywodraeth Cymru o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i helpu teuluoedd. Mae refeniw'r dreth gyngor yn helpu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol y mae plant yng Nghymru yn elwa arnynt, fel addysg a gofal cymdeithasol.

**Y Gymraeg**: Darperir yr offeryn statudol hwn yn ddwyieithog. Caiff Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor eu rhoi ar waith a'u gweithredu gan awdurdodau lleol sydd â dyletswyddau cyffredinol i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg a dyletswyddau datblygu cynaliadwy. Ystyriwyd a ellid defnyddio Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i wella cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gan beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gan mai unig ddiben Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yw darparu cymorth i aelwydydd incwm

isel i fodloni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, ystyrir nad oes cyfleoedd o'r fath.

**Cydraddoldebau:** Bydd cynnal hawlogaethau llawn i Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau i helpu aelwydydd incwm isel i fodloni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor ac, felly, bydd yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud y dreth gyngor yn decach.

**Y sector gwirfoddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar y sector gwirfoddol.

**Cyfiawnder:** Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y system gyfiawnder.

## Asesu'r gystadleuaeth

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u sgorio yn erbyn prawf hidlo'r asesiad o gystadleuaeth. Nodwyd na fydd effaith niweidiol ar gystadleuaeth.

## Ymgynghori

Nid oes gofyniad i ymgynghori, ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn cysylltiad â'r offeryn statudol hwn ac eithrio mewn perthynas â thrin Credyd Cynhwysol fel cais ym mharagraff 4.17 uchod. Ymgynghorwyd ar Reoliadau 2013 a cheir manylion yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hynny. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn parhau i sicrhau bod yr holl newidiadau a wneir o fudd i geiswyr. Ni ellir cwblhau'r Rheoliadau nes bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi darparu ffigurau mewn perthynas ag uwchraddio. Fel arfer, mae hyn yn digwydd ychydig cyn gosod sy'n golygu nad oes cyfle i ymgynghori. Rhaid gwneud y Rheoliadau cyn 31 Ionawr cyn y flwyddyn ariannol gan mai erbyn y dyddiad hwn y mae'n rhaid i awdurdod lleol wneud ei gynllun.

## Adolygu ar ôl gweithredu

Mae angen diwygiadau yn flynyddol er mwyn uwchraddio'r ffigurau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo hawlogaethau i ostyngiadau. Mae hyn yn rhoi cyfle i adolygu'r ddeddfwriaeth.